OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2656 (Cy.288) (C.106)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2012

Gwnaed - - - - 22 Hydref 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cychwyn

2. Daw adrannau 1 i 9 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 i rym ar 16 Tachwedd 2012.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

22 Hydref 2012

(**1**) 2011 mccc 7.